# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 25 Mai 2006

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau*

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Yn sgil penderfyniad British Gas Business i wrthod darparu gwasanaeth Cymraeg, pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i annog y cwmnïau cyfleustod preifat i ddarparu gwasanaeth dwyieithog. (WAQ46975) **W**

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa gamau mae'r Gweinidog yn eu cymryd i gynyddu nifer y bobl 50 oed a throsodd sydd mewn gwaith yn etholaeth Dyffryn Clwyd. (WAQ46982)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Sawl damwain traffig ar y ffordd yn 2005 a arweiniodd at farwolaeth plant oedran ysgol (a) yng Nghymru a (b) yn Sir Ddinbych. (WAQ46981)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog a'i swyddogion wedi eu cael gyda Network Rail a Threnau Arriva Cymru ynghylch (a) cyllido a (b) amserlen debygol ar gyfer gosod gwell cyfleusterau Teledu Cylch Cyfyng mewn gorsafoedd rheilffordd yn y Gogledd. (WAQ46980)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Beth yw amcangyfrif gorau'r Gweinidog o gyfraniad twristiaeth seiclo i economi Cymru. (WAQ46978)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa bwerau sydd gan y Gweinidog i osod safonau gofynnol ar fasnachfreintiau rheilffyrdd a Network Rail i wella'r ddarpariaeth ar gyfer beiciau ar drenau ac mewn gorsafoedd rheilffordd yng Nghymru er mwyn i deithio ar feic ac ar drên gael eu hintegreiddio a'u hyrwyddo i roi opsiwn 'o'r drws i'r gyrchfan' di-dor ac amgylchedd-dderbyniol yn hytrach na theithio mewn car yng Nghymru. (WAQ46977)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i wella'r ddarpariaeth ar gyfer seiclwyr mewn gorsafoedd rheilffordd ac ar drenau o amgylch Cymru. (WAQ46976)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau*

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y gweinidog amlinellu faint o Brifysgolion yng Nghymru a dderbyniodd ddyfarniadau o'r Gronfa Arloesedd Addysg Uwch yn ystod mis Ionawr tan fis Mai 2006. (WAQ46973)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella mynediad i ganwyr i afonydd Cymru. (WAQ46996)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Faint o losgwyr bwrdeistrefol y mae'r Gweinidog yn disgwyl i gael eu comisiynu yng Nghymru dros y pum mlynedd nesaf. (WAQ46995)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i leihau milltiroedd bwyd Cymru a'u cyfraniad at ollyngiadau carbon deuocsid yng Nghymru. (WAQ46994)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Sawl milltir o 'gilffyrdd cyfyngedig' y mae'r Gweinidog yn rhagweld a grëir yng Nghymru yn sgil cychwyn y darpariaethau hawl tramwy (cymalau 67 i 71) yn y Ddeddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig. (WAQ46993)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pryd mae'r Gweinidog yn rhagweld y bydd y darpariaethau hawl tramwy (cymalau 67 i 71) yn y Ddeddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig yn cael eu cychwyn yng Nghymru. (WAQ46992)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Beth oedd y cymhorthdal ffermwr sengl mwyaf, gan gynnwys cymhorthdal yr UE, a dalwyd i ffermwr yn etholaeth Dyffryn Clwyd yn (a) 2004 a (b) 2005. (WAQ46997)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw amcangost gwaith adeiladu ar Swyddfa newydd Llywodraeth y Cynulliad yng Nghyffordd Llandudno a beth oedd yr amcangost pan gynigiwyd y swyddfa newydd am y tro cyntaf. (WAQ46971)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella casglu sbwriel ar yr A55 (WAQ46979) **Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cyngor a roddwyd i Feddygon Teulu am ddefnyddio cyffuriau gwrth-iselder, yn dilyn y datblygiadau diweddar gyda Seroxat. (WAQ46969)

**Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu "therapïau siarad" ar gyfer pobl ag iselder ysgafn neu gymedrol yng Nghymru. (WAQ46970)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Pa wybodaeth baratoadol ydych chi wedi ei rhoi,

cyn belled, i fferyllwyr ac ymarferwyr i baratoi ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth sy'n mynd trwy'r senedd ar hyn o bryd i newid y drefn ar gyfer rhoi presgripsiwn am gyffuriau rheoledig. (WAQ46972)

**Eleanor Burnham (Gogledd Cymru):** Beth yw nifer y lleoliadau (yn ôl ardal BILl) ar gyfer cleifion Iechyd Meddwl Cymru sydd, ar hyn o bryd, y tu allan i'w hardal eu hun, a hefyd lleoliadau y tu allan i Gymru, mewn unedau iechyd meddwl arbenigol â statws a) heb fod yn gaeth; b) diogelwch isel; c) diogelwch canolig a d) diogelwch uchel, a beth yw'r gost i bob BILl ac ardal BILl. (WAQ46974)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael ynghylch goblygiadau'r newidiadau cyllido yn Lloegr ar blant o Gymru sydd ag angen triniaeth yn ysbyty plant Alder Hey. (WAQ46989)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Faint o (a) blant a (b) oedolion sydd yn (i) ordew a (ii) dros bwysau wrth eu mesur yn ôl mynegai mas y corff, yn ôl ffigurau'r arolwg iechyd mwyaf diweddar. (WAQ46990)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Faint o staff llinell flaen oedd yn GIG Cymru yn (a) 1997 a (b) 2005. (WAQ46985)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Beth yw amcangyfrif diweddaraf y Gweinidog ynglyn â faint o blant yn etholaeth Dyffryn Clwyd sy'n ordew. (WAQ46991)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella'r driniaeth a roddir i bobl sy'n dioddef o myalgic encephalopathy. (WAQ46984)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Faint o ymarferwyr cyffredinol oedd yn GIG Cymru yn (a) 1997 a (b) 2005. (WAQ46983)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith yr Agenda ar gyfer Newid ar (a) nyrsys cymunedol a (b) swyddi nyrsys cymunedol. (WAQ46988)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa ganran o staff ym mhob Ymddiriedolaeth GIG sydd wedi cwblhau'r trosglwyddiad i'r Agenda ar gyfer Newid a phryd y mae'r Gweinidog yn rhagweld y bydd holl staff y GIG yng Nghymru wedi gwneud hynny. (WAQ46987)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei bolisi ar gyfer darparu a chyllido offer wrth gefn ac offer newydd ar gyfer cymhorthion cyfathrebu. (WAQ46986)